

## CYPE(6)-04-23 - Papur i'w nodi 2

Lynne Neagle AS/MS  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant  
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Russell George AS,  
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

24 Ionawr 2023

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr dilynol, dyddiedig 16 Ionawr 2023, ynglŷn â'r rheoliadau diwygio uchod. Fe wnaif i ymdrin â phob un o'ch pwyntiau yn eu trefn.

### 1. A allech chi gadarnhau pryd y disgwylir i'r Rheoliadau gael eu gosod a phryd y byddant yn dod i rym?

Gosodwyd y ddeddfwriaeth ddydd Gwener 13 Ionawr. Dyma'r ddolen:  
[The Food Supplements and Food for Specific Groups \(Miscellaneous Amendments\) Regulations 2023 \(legislation.gov.uk\)](#).

### 2. A allech chi ddweud pam mae'r Rheoliadau wedi'u gohirio, ac a fydd hynny'n arwain at unrhyw ganlyniadau?

Rhoddodd swyddogion yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) wybod ar 12 Rhagfyr na fyddai'r Rheoliadau'n cael eu gosod ar 14 Rhagfyr 2022 oherwydd nad oedd modd cael y cliriad Gweinidogol angenrheidiol mewn pryd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales](mailto:Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

### **3. A allech chi egluro a fydd safonau'n wahanol ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon o ganlyniad i'r diwygiadau a gaiff eu gwneud gan y Rheoliadau?**

Bydd y safonau yr un fath ar draws Prydain a Gogledd Iwerddon. Mae offeryn statudol Prydain fawr yn gwneud mân ddiwygiadau ac mae'n rhan o un fframwaith deddfwriaethol yn Mhrydain Fawr. Mae hyn yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd mewn perthynas â diwygiadau deddfwriaethol blaenorol yn y maes hwn. Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi gwneud deddfwriaeth i wneud yr un diwygiadau, sydd eisoes yn gymwys mewn rheoliadau maeth cyfatebol ar draws yr UE.

### **4. Os Llywodraeth y DU fyddai'n gwneud y rheoliadau, a ystyriwyd a fyddai hynny'n effeithio ar hygyrchedd y gyfraith ac ar y gallu i sicrhau bod deddfwriaeth ddwyieithog ar gael?**

Roeddent yn bodloni'r meini prawf canlynol a bennir gan y Cwnsler Cyffredinol ar gyfer pryd y gellir gwneud deddfwriaeth o'r fath yn Senedd y DU ar ran Gweinidogion Cymru.

- a. os yw natur gydgysylltiedig y systemau gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr yn golygu mai'r dull mwyaf effeithiol a phriodol i'w ddefnyddio yw bwrw ymlaen â'r ddau yr un pryd yr un offeryn deddfwriaethol; a
- b. os yw'r darpariaethau datganoledig dan sylw yn fân neu'n dechnegol ac nad ydynt yn ddadleuol.

Ystyriw bod y rheoliadau'n rhai technegol eu natur at y diben hwn ac, o'r herwydd, roeddwn o'r farn mai cyfyngedig fyddai'r effaith.

### **5. A allech chi roi manylion y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw, a sut y caiff unrhyw ymatebion eu hadlewyrchu yn y Rheoliadau?**


Roedd yr ymgynghoriad yn gwahodd sylwadau gan y diwydiant bwyd a maeth, grwpiau cynrychioliadol, y cyhoedd a phartion eraill â diddordeb ledled y DU ar y dull arfaethedig. Cafodd y ddogfen ymgynghori hefyd ei rhoi ar yr Hyb Gwybodaeth, sef fforwm caeedig i Awdurdodau Lleol, i drafod safbwyntiau ar faterion gorfodi.

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r diwygiadau technegol ynghylch atchwanegiadau bwyd ac fe groesawodd yr ymatebwyr y newidiadau a gynigiwyd. Cafwyd cais am gyfnod pontio hirach ar gyfer y newid yn uned fesur a ddefnyddir i labelu copr mewn atchwanegiadau bwyd a chytunwyd ar hyn a'i adlewyrchu yn yr offeryn statudol.

**6. A allech chi roi rhagor o wybodaeth am y sail resymegol dros ddefnyddio'r diffiniad mwy cyfyng hwn, a beth fyddai goblygiadau newid o'r fath?**

Bydd y newid hwn yn rhoi diffiniad mwy manwl gywir o weddillion, a gymerir o Reoliad (CE) Rhif 396/2005 (ar y lefelau gweddilliol uchaf o blaladdwyr mewn neu ar fwyd a phorthiant sy'n dod o blanhigion ac anifeiliaid) ac yn rhoi mwy o eglurder a chysondeb o ran y diffiniad a ddefnyddir yn y ddeddfwriaeth ar gyfer bwyd cyffredinol.

Yn gywir



**Lynne Neagle AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant  
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing